OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 2507 (Cy.225)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Ariannol AALl) (Cymru) 2004

Wedi'u gwneud - -	*21 Medi 2004*
Yn dod i rym - -	*30 Medi 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 48(1) a (2) a 138(7) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a pharagraff 1(7) o Atodlen 14 iddi(**1**) ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Ariannol AALl) (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 30 Medi 2004.

(2) Maent yn gymwys i'r blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar ôl 31 Mawrth 2005 yn unig.

(3) Maent yn gymwys i Gymru yn unig.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

mae "corff llywodraethu" ("*governing body*") yn cynnwys corff llywodraethu dros dro ac mae "llywodraethwr" ("*governor*") yn cynnwys aelod o gorff llywodraethu dros dro;

mae i "cyfran o'r gyllideb" yr ystyr a roddir i "budget share" gan adran 47(1) o Ddeddf 1998;

dehonglir "cyllideb ddiprwyedig" yn unol â "*delegated budget*" yn adran 49(7) o Ddeddf 1998;

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996(**3**);

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriadau at ysgolion a gynhelir gan awdurdod addysg lleol (sut bynnag y caiff ei eirio) yn cynnwys y canlynol yn unig, sef ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion arbennig sefydledig, a gynhelir gan yr awdurdod (gan gynnwys ysgol o'r fath y cynigir ei bod yn cael ei chynnal gan yr awdurdod ac y mae ganddi gorff llywodraethu dros dro y gwnaed y trefniadau ar gyfer ei ffurfio gan yr awdurdod

(**1**) 1998 p.31. Diwygiwyd adran 48(1) a (2) gan baragraff 2 o Atodlen 3 i Ddeddf Addysg 2002, p.32.
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac adran 211 o Ddeddf Addysg 2002.
(**3**) 1996 p.56.

gan gydymffurfio â'r ddyletswydd a osodwyd arno gan adran 44(1)(**4**) o Ddeddf 1998 neu adran 34(1) o Ddeddf 2002(**5**)).

Dirymu

3. Dirymir rheoliadau 25 i 28 o Reoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir 1999 ac Atodlen 3 iddynt(**6**) ar 1 Ebrill 2005.

Yr hyn sy'n ofynnol i'w gynnwys yn y cynlluniau

4. Rhaid i gynllun a baratoir gan awdurdod addysg lleol o dan adran 48(1) o Ddeddf 1998 ymdrin â materion sy'n gysylltiedig ag ariannu ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod y nodir hwy yn yr Atodlen i'r Rheoliadau yma.

Dull cyhoeddi

5. At ddibenion paragraff 1(7) o Atodlen 14 i Ddeddf 1998 (y dull a ragnodir i gyhoeddi cynlluniau) rhaid i'r awdurdod addysg lleol o dan sylw gyhoeddi cynllun pan ddaw i rym ac yn yr amgylchiadau a ragnodir yn rheoliad 6 —

(a) drwy roi copi i gorff llywodraethu a phennaeth pob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod; a

(b) drwy drefnu bod copi ar gael i gyfeirio ato ar bob adeg resymol yn ddi-dâl —

(i) ym mhrif swyddfa addysg yr awdurdod; a

(ii) ym mhob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod neu ar wefan a gynhelir gan yr awdurdod ac sydd ar gael i'r cyhoedd.

Amgylchiadau ychwanegol pan fydd angen cyhoeddi cynlluniau

6. At ddibenion paragraff 1(7)(b) o Atodlen 14 i Ddeddf 1998 (achlysuron a ragnodwyd pan fydd angen cyhoeddi cynlluniau) rhaid i'r awdurdod addysg lleol o dan sylw gyhoeddi cynllun pan ddaw unrhyw ddiwygiad ohono i rym.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**7**)

D. Elis-Thomas
21 Medi 2004 Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

(**4**) Bydd adran 44(1) yn cael ei diddymu gan Atodlen 22 i Ddeddf Addysg 2002.
(**5**) Caiff adran 34(1) ei dwyn i rym ar ddiwrnod sydd i'w benodi.
(**6**) O.S. 1999/101.
(**7**) 1998 p.38.